COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 3 A GYNHALIWYD HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB AR DYDD LLUN, 7 EBRILL 2025 16:00

Presennol

Y Cynghorydd MJ Williams – Cadeirydd i'r Cyfarfod

| | |
|---|---|
| C Davies | I. Williams |

Presennol yn Rhithwir

| | | | |
|---|---|---|---|
| S J Bletsoe | J.P.D. Blundell | N Clarke | RJ Collins |
| P W Jenkins | W J Kendall | J E Pratt | G Walter |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

| | |
|---|---|
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol ar gyfer Cymunedau |

Gwahoddedigion:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Paul Davies | Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd |
| Zak Shell | Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol |
| Ieuan Sherwood | Rheolwr Grŵp - Economi, Adnoddau Naturiol a Chynaliadwyedd |
| Paul Smith | Rheolwr Rhaglen Datgarboneiddio |
| Sam Wright-Green | Uwch Reolwr, Ymddiriedolaeth Carbon |
| Jordan DeAngelis | Uwch Reolwr, Ymddiriedolaeth Carbon |
| Maddie Liver | Dadansoddwr, Ymddiriedolaeth Carbon |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |

Stephen Griffiths — Swyddog Craffu Dros Dro

Datganiadau o Fuddiant

Dim

## 99. Penodi Cadeirydd ar gyfer y Cyfarfod

| | |
|---|---|
| Penderfyniad Wedi'i Wneud | WEDI'I DDATRYS:<br><br>Penododd y Pwyllgor y Cynghorydd MJ Williams yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 7 Ebrill 2025 |

## 100. Adolygiad o Strategaeth Sero Net Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

| | |
|---|---|
| Penderfyniad Wedi'i Wneud | WEDI'I DDATRYS:<br><br>Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaethau manwl gydag Aelod o'r Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion canlynol:<br><br>**Argymhellion:**<br><br>1. Trafododd y Pwyllgor yr heriau sy'n wynebu'r Awdurdod o ran cyflawni Carbon Sero Net 2030 ac **argymhellodd** y dylid ystyried cysylltu â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i geisio eglurder ynghylch statws presennol strategaethau i gyrraedd sero net erbyn 2030 yn awdurdodau lleol eraill Cymru, ac wedi hynny, os yw awdurdodau lleol eraill Cymru yn profi heriau tebyg, **argymhellodd** y Pwyllgor ymhellach bod cais dilynol yn cael ei wneud i ofyn i CLILC roi gwybod i Lywodraeth Cymru am y sefyllfa ac ystyried ymestyn ei strategaeth carbon sero net o 2030 i'w halinio â strategaeth Llywodraeth y DU, er mwyn cyrraedd sero net erbyn 2050. |

| | |
|---|---|
| | 2. **Argymhellodd** y Pwyllgor bod fersiwn derfynol yr adroddiad gan yr Ymddiriedolaeth Carbon yn darparu eglurder ynghylch y trefniadau llywodraethu ar gyfer y strategaeth gan gynnwys cynrychiolaeth Aelodau, er mwyn sicrhau arweinyddiaeth wleidyddol glir.<br><br>3. **Argymhellodd** y Pwyllgor bod y strategaeth yn cynnwys ffocws ar nodau ymarferol a chyraeddadwy a bod ôl troed carbon y gadwyn gyflenwi yn flaenoriaeth briodol.<br><br>4. **Argymhellodd** y Pwyllgor bod y strategaeth ddiwygiedig yn cael ei rhannu ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos, gan fod angen ymgysylltu â'r cyhoedd a chael barn trigolion a rhanddeiliaid y fwrdeistref sirol. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 7 Ebrill 2025 |

## 101. Adroddiad Gwybodaeth - Perfformiad Chwarter 3 2024/25

| | |
|---|---|
| Penderfyniad Wedi'i Wneud | <u>WEDI'I DDATRYS</u>:<br><br>Nododd y Pwyllgor gynnwys adroddiad Perfformiad Chwarter 3 2024-25, Dangosfwrdd Perfformiad Corfforaethol Chwarter 3 2024-25 a'r Traciwr Rheoleiddio a ddiweddarwyd ar gyfer Chwarter 3 2024-25 o fewn cylch gwaith y Pwyllgor hwn ac ystyriodd y dangosfwrdd a'r traciwr wrth ystyried adroddiad Blaenraglen Waith y Pwyllgor.<br><br>Trafododd y Pwyllgor WBO 2.2.1, yr ymrwymiad i gynyddu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant yn y Fwrdeistref Sirol i bobl ifanc 16 i 24 oed a nododd y byddai'r ymrwymiad yn cael ei ddileu ar gyfer 2025-26 oherwydd nad oes arian Gwarant Ieuenctid ac **argymhellir** bod Dangosydd Perfformiad newydd yn cael ei lunio i barhau i fonitro perfformiad yn y maes gweithgaredd hanfodol hwn i'w gynnwys yn yr adran briodol o'r dangosfwrdd Perfformiad. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 7 Ebrill 2025 |

## 102. Diweddariad ar y Flaenraglen Waith

| | |
|---|---|
| Penderfyniad Wedi'i Wneud | WEDI'I DDATRYS:<br><br>Bod y Pwyllgor wedi cymeradwyo'r Flaenraglen Waith (BW) yn Atodiad A yn amodol ar gynnwys yr argymhellion isod, wedi nodi'r Daflen Gweithredu Monitro Argymhellion yn Atodiad B ac wedi nodi y byddai'r BW fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor yn cael ei adrodd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol.<br><br>1. **Gofynnodd** yr aelodau yn dilyn cyfarfod cynllunio'r Rhaglen Waith nesaf ar ôl ymgynghori â'r Cadeirydd, bod y Rhaglen Waith yn cynnwys ymrwymiadau cadarn i amserlennu adroddiadau i'w cyflwyno i gyfarfodydd penodol y Pwyllgor yn 2025-26.<br><br>2. **Gofynnodd** yr aelodau bod yr adroddiadau canlynol yn cael eu hychwanegu at y Cynllun Gwaith Arweiniol a'u blaenoriaethu i'w hamserlennu'n gynnar yn 2025-26:<br><br>a. Cyflwr priffyrdd yn y Fwrdeistref Sirol a statws y rhaglen ailwynebu ffyrdd.<br><br>b. Daeth adroddiad ar y tri pharc mawr yn y Fwrdeistref Sirol i ben ym mis Tachwedd 2022 nad yw wedi cael ei ystyried gan y Cabinet eto, i'w ystyried gan y Pwyllgor hwn cyn gwneud penderfyniad ac yn gyfrinachol os oes angen.<br><br>3. **Gofynnodd** yr aelodau am adroddiad neu Grynodeb i ddeall y broses ar gyfer gwneud ceisiadau i'r Asiantaeth Swyddfa Brisio (VOA) lle bodlonir amodau ar gyfer dileu band gwerthuso ar eiddo, dileu'r gofyniad i dalu'r Dreth Gyngor, ac a oes gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr opsiynau, gan weithio gyda'r VOA, neu ddefnyddio ei adnoddau ei hun i fynd i'r afael â'r mater, os nad oes gan y perchennog unrhyw hawl i arian cyhoeddus. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 7 Ebrill 2025 |

## 103. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Penderfyniad Wedi'i Wneud | Dim |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 7 Ebrill 2025 |

I weld trafodaeth bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:36.